

❖ GWEDDI'R ADFENT

Tyrd, ddirgelwch cuddiedig.
 Tyrd, berson tu hwnt i bob deall.
 Tyrd, lawenydd diddarfod.
 Tyrd, fy anadl a'm heinioes.
 Tyrd, gysur fy enaid gwan.
 Tyrd, fy niddanwch tragwyddol.

Simeon y Diwinydd Newydd

❖ MYFYRDOD EMYNAU'R ADFENT

Cyfieithiad o emyn Lladin o'r ddeunawfed ganrif yw hwn sy'n disgwyl dyfodiad Iesu i'r byd:

O tyred di, Emanwêl,
 a datod rwympau Isrâel
 sydd yma'n alltud unig, trist
 hyd ddydd datguddiad Iesu Grist:
 O cân, O cân: Emanwêl
 ddaw atat ti, O Isrâel.

O tyred, olau'r Seren Ddydd,
 diddana ein calonnau prudd;
 gwasgara ddu gymylau braw
 a chysgod angau gilia draw:
 O cân, O cân: Emanwêl
 ddaw atat ti, o Isrâel.

J. D. Vernon Lewis, *Caneuon Ffydd* 432

Mae'r emyn hwn yn cyfleu neges ganolog yr Adfent o farn ac ailddyfodiad Iesu:

Wele'n dyfod ar gymylau
 Farnwr dyn a brenin nef;
 Myrdd myrddiynau sydd o'i seintiau
 Yn ei amgylchynu ef;
 Haleliwia,
 Iesu a deyrnasa byth.

Emynau'r Llan, 24

Mae'r cysyniad o ddyfodiad Iesu i'r galon unigol yn amlwg yn emyn Ieuan o Llyn:

Wele wrth y drws yn curo,
 Iesu, tegwch nef a llawr;
 clyw ei lais ac agor iddo,
 paid ag ofni funud awr;
 agor iddo,
 mae ei ruddiau fel y wawr.

Ieuan o leyn, *Caneuon Ffydd* 317

Mae adlais o eiriau Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid yn yr emyn hwn, 'Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio. Gadewch inni, felly, roi heibio weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau'r goleuni' (Rhufeiniaid 13:12):

Clywch yr eglur lais yn galw,
 “Crist,” medd ef, “gerllaw y sydd”;
 Holl freuddwydion y tywyllwch
 Bwriwch ymaith, blant y dydd.

Wele’r Oen a hir ddisgwyliwyd,
 Gyda phardwn daw o’r nef,
 Awn ar frys gan wylo dagrau
 Am faddeuant ato ef.

Emynau’r Llan, 23

Fel llawer o garolau’r plygain mae’r emyn hwn yn cwmpasu bywyd Iesu o Fethlehem i Galfaria:

Wele, cawsom y Meseia,
 cyfaill gwerthfawroca’ ’rioed;
 darfu i Moses a’r proffwydi
 ddweud amdano cyn ei ddod:
 Iesu yw, gwir Fab Duw,
 Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Hwn yw’r Oen, ar ben Calfaria
 aeth i’r lladdfa yn ein lle,
 swm ein dyled fawr a dalodd
 ac fe groesodd filiau’r ne’;
 trwy ei waed, inni caed
 bythol heddwch a rhyddhad.

Dafydd Jones, Caneuon Ffydd 441

Nid aros gyda’r geni’n unig mae Ann Griffiths ond crynhoi bywyd Iesu yn ystod ei weinidogaeth:

Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,
 rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,
 gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth
 a Rheolwr popeth sydd

Efe yw’r Iawn fu rhwng y lladron,
 efe ddioddefodd angau loes,
 nerthodd freichiau’i ddiennyddwyr
 i’w hoelio yno ar y groes;

Ann Griffiths, Caneuon Ffydd 446